

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Fedi 2017

Presennol - Gareth Wynne, Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettaney, Nick Corney, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau Terry Bullock, Siân Godbert, Janet Charlton, Cyng. Elisabeth Roberts Cyngor B S Conwy

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd, cofnodion cyfarfod 10fed Orffennaf 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

[a] Roedd yr heddeidwad Phil Gales yn bresennol a dywedodd nad oedd unrhyw fater pryderus oddigerth bod modur wedi ei ddwyn o faes parcio Ffordd yr Orsaf.

[b] Nodwyd bod dau berson wedi eu herlid am gasglu arian o wely'r afon yn y Rhaeadr Ewynnol a bod y llys wedi gosod 12 mis o ryddhad amodol gyda chostau o £105.00 yr un iddynt.

[1.1] Creu Mynedfa Newydd i'r Neuadd Goffa

Cyfeiriodd y clerch at 3 amcan bris gan y canlynol i ymgymryd â'r gwaith, R O Williams a'i fab, Adeiladwyr A W Jones, Thomas Jones [Llandudno] Cyf

Penderfynwyd penodi A W Jones Llanrwst i ymgymryd â'r gwaith. Y clerch i gadarnhau mai staen canolog ddylai'r drysau fod.

[1.2] Marciau Ffordd ar gyfer Arhosfa Bws/ A5 Pentre' Du

Dywedodd y clerch bod y gwaith wedi ei gwblhau.

[1.3] Sedd Wag y Cyngor

Eglurodd y clerch bod un person wedi datgan diddordeb a'i fod wedi gofyn iddo ysgrifennu cais byr. Fodd bynnag nid oedd cysylltiad ymhellach wedi ei wneud gyda'r Cyngor.

[1.4] Lleoliad ar Gyfer Hen Giosg Coch BT

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Casglu Arian o Wely'r Afon/Rhaeadr Ewynnol

Nodwyd bod Siân Godbert yn parhau i wneud ymholiadau ynglŷn â chasglu'r arian.

[1.6] Adnewyddu Biniau Cwn

Penderfynwyd talu'r gost ar gyfer biniau newydd yn y pentref.

[1.7] Coed Afalau

Deallwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Ysgol Betws-y-Coed ynglŷn â chynnig i blannu coed afalau yng nghae'r ysgol.

[1.8] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Ms Vicky Kelly.

[1.9] Lefel Dwr Llyn Elsi

Nodwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth William Hall & Co

Y brif Agenda

[2] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Gorffennaf/Awst 2017

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Gorffennaf Awst 2017.

[c] Eglurodd y clerc iddo mewn camgymeriad, ddefnyddio'r cerdyn anghywir wrth dalu arian i gyfrif y Cyngor Cymuned. Ond roedd y camgymeriad wedi ei gywiro.

[2.1] Llythyr gan Mrs Rita Brown

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mrs Rita Brown yn awgrymu y buasai 'n syniad gwneud cystadleuaeth "Betws Mewn Blodau" rhwng y busnesai yn ystod misoedd yr haf. Y clerc i anfon gair y buasai'n well gan y Cyngor ohirio'r cynnig ar hyn o bryd, a bod y Cyngor wedi gosod a phlannu tybiau newydd yng Nghae Llan. Mae blwch newydd ar gyfer planhigion hefyd i gael ei osod gyferbyn a Gwesty'r Waterloo erbyn y Gwanwyn.

[2.2] Y Ffordd yn Arwain i fyny a heibio Moduron Betws

Deallwyd bod pryder ynglŷn â materion traffig ar y ffordd uchod. Y clerc i anfon at Gyngor Conwy i geisio cael gosod arwydd nad yw'r ffordd yn addas i lorïau trwm.

[2.3] Damwain ar Ffordd yr A5

Mynegwyd pryder bod eitemau wedi eu gadael yn y lleoliad lle bu'r ddamwain ddifrifol ar yr A5 rhwng Pentre' Du a'r Rhaeadr Ewynnol. Gan ei bod yn tynnu sylw modurwyr, y clerc i wneud ymholiad ynglŷn â chael ei symud.

[2.4] Banerau Hysbysebu/Posterï Surf Snowdonia/ Zip World

Y clerc i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r canlynol;

[a] Baneri hysbysebu oddi allan i fusnesau yn y pentref.

[b] Posterï Zip World wedi ei gosod ar y coed.

[2.5] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Llythyr o ddiolch oddiwrth Cyfeillion Ysgol Betws-y-Coed am gyfraniad ariannol.

[b] Adroddiad APCE, Nosweithiau Cyngorau Cymuned.

[c] Dyfodol Gwledig , Cefnogaeth Datblygiad i'r Gymuned.

Cadeirydd _____